# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 2AIL MAWRTH, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 22 Chwefror 2021)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Bob Tyrrell | Aberdyfi Community Council |
| Nick Dawson | Aelod o Outward Bound Wales |
| David Williams | Member of Aberdyfi & Improvements Committee |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Rob Triggs | Barmouth Town Council |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-Gadeirydd.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater sy'n teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 4 - 7

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 18

I drafod adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. ADRODDIAD YR HARBWRFEISTR** 19 - 21

I drafod adroddiad yr Harbwrfeistr.

**9. UNRHYW FATER ARALL**

I drafod unrhyw fater arall sydd angen ystyriaeth gan y pwyllgor.

**10. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

I nodi dyddiad nesaf cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI 12/11/19

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau**: Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Cyng. Bob Tyrrell (Cyngor Tref Aberdyfi), Nick Dawson (Outward Bound Wales), Cyng David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi) a Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi)

Swyddogion: Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), William A Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Mererid Watt (Cyfieithydd)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Cynghorydd Dewi Owen (Cyngor Gwynedd), Llŷr B Jones Pennaeth Cynorthwyol Economi ac Chymuned a Barry Davies (Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019/20.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5ed o Fawrth, 2019, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

**(a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng Mawrth 2019 a Hydref 2019.

**Angorfeydd**

Adroddwyd bod nifer yr angorfeydd yn sefydlog er newid ym mhatrwm ymddygiad defnyddwyr. Amlygwyd bod cychod pŵer a beiciau dwr bellach yn fwy poblogaidd na chychod hwylio ac yr un yw'r sefyllfa ar draws y wlad.

**Cod Diogelwch**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau wedi cynnal archwiliad ym Mawrth 2019 ar drefniadau penodol a system Harbyrau Bwrdeistrefol

Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Morol. Yn dilyn ymweliad pellach i weld sut roedd yr ychwanegiadau a awgrymwyd wedi ei gweithredu, adroddwyd bod Capten Quader (archwilydd o'r Asiantaeth) yn fodlon bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd. Atgoffwyd yr Aelodau o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch a chyfeirio unrhyw bryderon i'r Harbwrfeistr.

**Materion Staffio**

Adroddwyd bod Harbwrfeistr Cynorthwyol llawn amser wedi ei benodi ac wedi ei leoli yn Harbwr Aberdyfi. Bydd y penodiad yn sicrhau cefnogaeth i'r harbwrfeistr ynghyd a chynorthwyo mewn harbyrau eraill ar draws y Sir pan fydd angen. Nododd yr Harbwrfeistr bod penodi Mr Oliver Simmonds i'r tîm eisoes wedi profi yn werthfawr a bod ei brofiad o weithio gyda'r Clwb Hwylio yn fanteisiol. Ategodd yr Aelodau bod cydweithio da ymysg y staff a bod y penodiad yn un da.

**Materion Ariannol**

Cyflwynwyd cyllideb yr harbwr i amlygu'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd Medi 2019. Amcangyfrifwyd tanwariant o £4,121. Amlygwyd bod bwriad o godi ffioedd lansio dyddiol o £10 i £15

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y tanwariant, amlygwyd bod bwriad prynu bwi ynghyd a gwaith cynnal a chadw dros dymor y gaeaf.

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Harbwrfeistr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol a chynnal a chadw. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Bod y gwasanaeth yn parhau i fonitro llwybr y sianel fordwyo i Aberdyfi. Nodwyd bod y sianel yn newid yn barhaol gyda symudiad gogleddol. Nodwyd bod hyn yn creu gwaith addasu i gynorthwyo a sicrhau diogelwch mordwyo.
- Bod Ymddiriedolaeth yr Outward Bound a Chlwb Hwylio Dyfi wedi cynnal rhaglen brysur o ddigwyddiadau llwyddiannus dros yr Haf
- Bod y Gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn nifer carcasau anifeiliaid wedi eu golchi i fyny ar y traeth
- Diolchwyd i'r Ymddiriedolaeth Outward Bound a Chlwb Hwylio Dyfi am y cymorth a gafodd y Gwasanaeth tra bod gwaith atgyweirio strwythurol ar gwch yr harbwr
- Bod ysgolion tywod pren yn galluogi mynediad ar draws y twyni i'r traeth yn dilyn gwaredu llwybr pren y clwb golff
- Bod sefyllfa'r bont dros y rheilffordd i Fryn Llestair (Picnic Island) yn cael ei drafod a phryderon diogelwch yn cael eu hystyried.
- Bod y Gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gyda'r physgotwyr masnachol i dacluso lloc y pysgotwyr. Y bwriad yw cadw offer sydd ddim yn cael ei ddefnyddio yn y lloc a chylchdroi'r offer yn ôl yr angen.
- Bod trafodaethau pellach i'w cynnal gyda Rheolwr Morwrol a Pharciau Gwledig i sicrhau diogelwch cerddwyr ar y cei.
- Bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag Uned Eiddo'r Cyngor i gadw'r Swyddfa'r Harbwr yn ei leoliad presennol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gwaredu anifeiliaid sydd wedi eu golchi i fyny ar y traeth nodwyd bod carcasau anifeiliaid (defaid gan amlaf) yn cael eu gwaredu yn Nolgellau yn unol â threfniadau gwaredu anifeiliaid. Bydd anifeiliaid y môr yn cael eu

claddu yn y traeth - os yw yn anifail prin bydd y gwasanaeth yn cysylltu gyda gwasanaeth ymchwil mamaliaid môr er mwyn cofnodi pwysau, math ac ati. Ategwyd bod cydweithio da gyda mudiadau gwirfoddol lleol sydd yn glanhau'r traeth.

Mewn ymateb i sylw am sefyllfa'r bont dros y rheilffordd i Fryn Llestair (Picnic Island) nodwyd:
- Bod y penderfyniad i gau'r bont wedi cael ei gefnogi gan ddefnyddwyr er efallai wedi cael effaith ar weithgareddau Outward Bound
- Bod Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi cynnal asesiad strwythurol o'r bont
- Bod amserlen drafft o 12 – 18 mis wedi ei osod ar gyfer symud y bont – bydd angen atgyfnerthu'r rhwystrau atal mynediad
- Bod gan y Cyngor Cymuned gyswllt leol defnyddiol gyda Network Rail - peiriannydd wedi cyfarfod cynghorwyr cymuned a staff Outward Bound ar y safle i drafod y sefyllfa. Amlygwyd bod y cyfarfod wedi bod yn un gwerthfawr ar prif bryderon wedi eu hamlygu.
- Bod angen datrysiad tymor hir a chynllun priodol yn ei le
- Ymddengys 18mis yn gyfnod hir – yn ddelfrydol adeiladu pont newydd i'w gosod mewn un symudiad
- Bod cydweithio gyda Network Rail yn rhan allweddol o'r datrysiad

Mewn ymateb i'r gwaith sydd wedi ei wneud o gwmpas Lloc y Pysgotwyr nodwyd bod y ffens sydd wedi ei godi o amgylch y lloc yn un o ansawdd da, yn uchel i atal tipio slei bach ac wedi ei gloi. Croesawyd y gwaith caled oedd wedi ei wneud i dacluso'r ardal a gofynnwyd am gefnogaeth gan y gymuned i gadw'r ardal yn daclus. Yn dilyn trafodaethau gyda'r pysgotwyr, amlygwyd bod oddeutu hanner yr offer pysgota wedi ei drosglwyddo o'r harbwr i'r lloc. Ategwyd mai'r bwriad yw cylchdroi'r offer sydd yn cael ei ddefnyddio gan storio unrhyw offer arall yn y lloc. Bydd offer sydd wedi torri neu offer diangen yn cael ei wared.

Sylwadau pellach:
- Bod yr harbwr yn un gweithredol, yn denu llawer o ddiddordeb ymysg ymwelwyr ac yn rhan bwysig i economi a diwydiant yr ardal
- Bod angen sicrhau bod y safle yn cael ei gynnal a'i gadw yn rheolaidd
- Bod angen cydweithio gyda'r pysgotwyr masnachol - dyma eu bywoliaeth

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â safle swyddfa'r harbwrfeistr amlygwyd yr angen i uwchraddio'r swyddfa er lles y staff. Ategwyd nad oedd y cyfleusterau yn ddigonol. Cytunwyd bod lleoliad y swyddfa yn addas, ond yn ddelfrydol bod angen swyddfa gydag ail lawr i wella gwelededd ar draws yr harbwr a'r aber. Yn y cyfamser cynigwyd gosod teledu cylch cyfyng fel datrysiad. Awgrymwyd defnyddio swyddfeydd sydd ar osod gan Uned Eiddo'r Cyngor sydd wedi eu lleoli gerllaw yr Harbwr ar gyfer cyfleusterau toiled.

Mewn ymateb i'r digwyddiadau a gynhaliwyd, gwnaed sylw bod digwyddiad Nofio Aberdyfi yn un sydd wedi ei drefnu yn dda gyda'r trefnwyr yn rhoi ystyriaeth deg i ddiogelwch yr harbwr. Er bod y trefnwyr yn barod iawn i gydymffurfio gyda mesurau diogelwch, teimlwyd bod modd cynnal trafodaethau pellach i wella'r trefniadau.

Ategwyd bod digwyddiad elusennol 'Watercrat Blackrock Blast' wedi codi hyd at £10k ar gyfer Ambiwlans Awyr. Nodwyd bod oddeutu 100 o feiciau dwr wedi cymryd rhan a bod gwaith da wedi ei wneud i hyrwyddo diogelwch yn y dŵr.

Diolchwyd i bawb am eu hymroddiad i gynnal a threfnu digwyddiadau

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

### (a) Cynllun Cei Aberdyfi

Ar gyfer adnewyddu'r wal, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cais mewn egwyddor a'r cynllun bellach wedi ei restru ar Gynllun Asedau'r Cyngor. Amlygwyd bod y Cyngor wedi cadarnhau bod arian cyfatebol wedi ei glustnodi a manylion pellach ar y Cynllun Busnes Llawn wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd y gwaith yn mynd allan am dendr yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 gyda'r dogfennau tendr a methodoleg asesu tendr wedi eu cwblhau. Y bwriad yw penodi contractwr cyn Mawrth 31ain 2020 i ddechrau'r gwaith yn Medi 2020 (gan osgoi tymor yr Haf) a chwblhau'r gwaith erbyn Pasg 2021. Ategwyd y byddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu i rannu gwybodaeth gyda busnesau lleol a'r gymuned, cyn i'r gwaith ddechrau.

Derbyniwyd hyn fel newyddion calonogol iawn. Canmolwyd y cynlluniau a chroesawyd bod yr arian wedi ei sicrhau. Awgrymwyd y dylid gwahodd y contractwr llwyddiannus i'r cyfarfod cyhoeddus fel bod modd adeiladu perthynas agored gyda'r gymuned leol. Ategwyd bod llawer o waith angen ei wneud i sicrhau llwyddiant y cynllun gyda chais i bawb fod yn gefnogol.

- Awgrymwyd uwchraddio swyddfa'r harbwrfeistr yn ystod y cyfnod – cyfle rhy dda i'w golli
- Angen sicrhau bod y contractwr yn cysylltu a chydweithio gyda'r Bad Achub a'r pysgotwyr masnachol

Mewn ymateb i'r sylw am uwchraddio'r swyddfa, nodwyd bod yr Uned Eiddo yn ymwybodol o'r sefyllfa ac felly bod modd cynnal trafodaethau.

### (b) Diogelwch Cei Aberdyfi

Yn dilyn damwain ddiweddar ar y cei, amlygwyd y bwriad o beidio defnyddio'r ardal fel man parcio ond fel safle llwytho a dadlwytho yn unig. Y dymuniad yw peidio caniatáu cerbydau i barcio ar y cei fel bod modd osgoi gwrthdrawiad gyda cherddwyr.

## 9. CYFARFOD NESAF

Nodwyd, yn swyddogol, mai dyddiad y cyfarfod nesaf yw Mawrth 3ydd 2020. Er hynny, derbyniwyd cynnig am geisio dyddiad arall fel bod modd derbyn diweddariad ar dendr gwaith y cei. Gwnaed cais i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd drafod y cynnig gyda'r Gwasanaeth Morwrol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:50am

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi.** |
| **DYDDIAD** | **2 Mawrth 2021** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2021, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr. Mae'n drueni y bu'n rhaid canslo cyfarfodydd mis Mawrth a Hydref 2020, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod**

2.1 Yn 2020/21 roedd ffigyrau ar gyfer 'angorfeydd' yn yr Harbwr fel a ganlyn:-

2.2 Bu 47 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2020, o'i gymharu â 68 yn 2019. Mae'r ffigwr wedi ei effeithio yn arw gan effaith pandemig Coronafeirws a'r cyfyngiadau cysylltiedig a osodwyd ar unigolion gan Lywodraeth Cymru. Penderfynodd llawer o berchnogion cychod i beidio defnyddio eu cychod yn 2020.

2.3 Mae effaith pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar bob harbwr ar draws Gwynedd. Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2.4 Cofrestrwyd 831 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2020, o'i gymharu â 894 yn 2019. Cofrestrwyd 51 o gychod yn Harbwr Aberdyfi o gymharu â 41 yn 2019.

2.5 Roedd 843 o gychod dŵr personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2020 o gymharu gyda 827 yn 2019. Mae'r cynnydd yma'n adlewyrchu poblogrwydd a thueddiad presennol yr unigolyn hynny sy'n dymuno mwynhau eu hunain ar y dŵr. Mae busnesau lleol hefyd wedi dangos bod unigolion wedi bod yn prynu ganddynt yn hytrach na theithio dramor ar wyliau.

2.6 Cofrestrwyd 30 o gychod dŵr personol yn Harbwr Aberdyfi o'i gymharu â 32 y flwyddyn flaenorol.

2.7 Atodir copïau o'r holl ddata sy'n ymwneud â deiliadaeth a chofrestru.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1.1 Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn

sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordrwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

3.1.2 Yn dilyn archwiliad trylwyr o God Diogelwch Morol Porthladdoedd Gwynedd a'r system rheoli diogelwch gysylltiedig gan archwilwyr yr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau y llynedd, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu anfon llythyr cydymffurfio gyda'r cod at yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Cwblheir hyn ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol pandemig y Coronafeirws i sicrhau diogelwch yr harbwr. Mae cownter y cyhoedd yn y swyddfa wedi'i addasu ac fe osodwyd arwyddion o amgylch yr harbwr i helpu gyda chydymffurfio â Rheoliadau Coronafeirws Llywodraeth Cymru ac i sicrhau bod staff yn aros yn ddiogel yn yr amgylchedd gwaith.

4.2 Mae'r harbwrfeistr cynorthwyol llawn amser, Mr Oliver Simmons, wedi parhau i helpu'r harbwrfeistr gyda'i ddyletswyddau dyddiol gan weithio o'r harbwr. Mae Mr Simmons ar raglen hyfforddi wedi ei rhaglennu dan law yr Harbwrfeistr a'r Uwch Swyddog Harbwr.

4.3 Bwriedir cyflogi dau Swyddog Traeth tymhorol ar draeth Aberdyfi yn ystod y tymor a ddaw. Bydd eu gwaith hefyd yn golygu helpu staff yr harbwr ac i’r gwrthwyneb.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod. Mae pandemig y Coronafeirws wedi cael effaith fawr ar yr incwm gafwyd o'r harbwr. Yn unol â chyfarwyddiadau Cabinet Cyngor Gwynedd, bu gostyngiad yn y ffi angorfeydd i ddeiliaid angorfeydd am y tymor 2020-2021.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2021/22.**

Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau i Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio i Gychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol am y tymor 2021/22. Rhagwelir y bydd ffioedd yr harbwr yn codi yn ôl chwyddiant o 2%, a bydd y ffioedd lansio a chofrestru yn parhau fel y maent.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Aberdyfi wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2021, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

# Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit

## Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 73 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 923 |
| 2019 | 32 Aberdyfi<br>5 Tywyn | 78 Abermaw | 55 | 43 Total Boat Care<br>116 Hafan | 184 | 137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron | 153 | 827 |
| 2020 | 30 Aberdyfi | 68 Abermaw | 41 | 163 Hafan | 178 | 236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn | 93 | 843 |

## *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*
## *Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations*

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli Harbour | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 99 Total Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total Boat Care<br>177 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron | 290 | 1057 |
| 2019 | 41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn | 66 Abermaw | 33 | 97 Total Boat Care<br>172 Hafan | 30 | 89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron | 244 | 894 |
| 2020 | 51 Aberdyfi | 42 Abermaw | 16 | 281 Hafan | 24 | 180 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn | 151 | 831 |

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***



| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| ***Aberdyfi 2020*** | ***120*** | ***47 (39.2%)*** | ***23 (48.9%)*** | ***24 (51.1%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| ***Abermaw 2020*** | ***140*** | ***31 (22.1%)*** | ***24 (77.4%)*** | ***7 (22.6%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| ***Porthmadog 2020*** | ***238*** | ***64 (26.9%)*** | ***30 (46.9%)*** | ***34 (53.1%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| ***Pwllheli 2020*** | ***81*** | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| ***Hafan 2020*** | ***409*** | | | |
| | | | | |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| ***Doc Fictoria 2020*** | ***100*** | | | |
| | | | | |

# *Uned  Morwrol a Pharciau Gwledig*

## Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

| *Harbwr/Harbour Marina* | *Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings* | *Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring* | *Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats* | *Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats* | *Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail* |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 20** | **120** | **47** | **44** | **3** | **93.6% Pwer**<br>**6.4% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 20** | **140** | **31** | **21** | **10** | **67.7% Pwer**<br>**32.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer 69.5% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer 67.7% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 20** | **238** | **64** | **22** | **42** | **34.4% Pwer 65.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer 47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer 69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer 68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer 47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer 55.2% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 20** | **81** | | | | |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer 52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer 52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer 52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer 48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer 55.5% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 20** | **409** | | | | |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer 65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer 63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer 69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer 45.6% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 20** | **100** | | | | |
| | | | | | |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| **Cyfanswm 20** | **1088** | | | | |


# HARBWR ABERDYFI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 77 | 79 | 78 | 74 | 68 | 47 |
| **Cyfanswm Hydoedd** / Total LOA | 520.12 | 524.10 | 515.02 | 480.92 | 451.96 | ***301.02*** |
| **Cyfartaledd Hyd** / Average Length | 6.75 | 6.63 | 6.60 | 6.50 | 6.65 | ***6.4*** |
| **Cyfanswm Dyfnder** / Total Draught | 58.79 | 57.36 | 58.60 | 50.91 | 46.54 | ***30.01*** |
| **Cyfartaledd Dyfnder /** Average Draught | 0.76 | 0.73 | 0.75 | 0.69 | 0.68 | ***0.64*** |





Please be advised that the bar is only passable 3 hours either side of high water.
N
Aberdyfi
Harbour Master's Office
YSM 4 Knots
Fl.Y.2s
South Spit
Q.G
No 5
Fl.G.4s
No 7
Fl.G.2s
Bar No1
Fl.G.5s
Aberdyfi Outer Buoy
Iso W.4
Aberdyfi Harbour
Phone 01654 767626
Mobile 07879 433148
VHF Ch 12 & 16
williamstockford@gwynedd.llyw.cymru
NOT FOR NAVIGATION
January 2021
Outer Buoy Iso.4s Lat 52° 32.000'N Long 004° 05.550'W
No1 Starboard Fl.G.5s Lat 52° 32.031'N Long 004° 04.606'W
No2 Port Fl.R.5s Off Station. Removed for winter season
No3 Starboard Q.G. Lat 52° 32.162'N Long 004° 04.349'W (South Spit)
No5 Starboard Fl.G.4s Lat 52° 32.198'N Long 004° 04.053'W
No7 Starboard Fl.G.2s Lat 52° 32.256'N Long 004° 03.408'W
YSM 4 Knots Fl.Y.2s Lat 52° 32.469'N Long 004° 02.861'W
Please contact the Harbour Office on arrival at the Outer Buoy for any updates to this chartlet

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **2 Mawrth 2021** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W. Stockford Harbwrfeistr** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Yn dilyn yr arolygon a gynhaliwyd gan yr Harbwrfeistr o'r sianel fordwyo i'r harbwr, fe ymgymerwyd â gwaith i leoli Cymhorthion Mordwyo (AtoN) Rhif 1, Rhif 2 a Rhif 3 yn nechrau Ebrill 2020. Fe wnaeth y sianel droi yn sylweddol tua'r De ac fe hysbyswyd morwyr i ddilyn y bwiau yn ôl eu trefn.

1.1.1 Fe wnaeth y sianel aros yn sefydlog am fwyafrif y tymor ac fe gafodd ei monitro yn barhaus gan y Gwasanaeth. Tua diwedd y tymor fe wnaeth y banc canol symud tua'r gorllewin gan achosi'r sianel i sythu, ac yn ei dro arweiniodd hyn i fwiau Rhif 1 a Rhif 2 symud o'u lle ac nid oedd modd adfer bwi Rhif 1.

1.2 Bob blwyddyn, mae Tŷ'r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredin, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthyddion mordwyo a gofnodwyd yn Harbwr Aberdyfi. Yn ychwanegol, bob dwy flynedd cynhelir archwiliad pellach gan Dŷ'r Drindod o'r cofnodion cynnal a chadw bwiau a'r asesiadau risg sy'n gysylltiedig gyda diogelwch Mordwyo yn yr harbwr. Cwblhawyd yr archwiliadau yn ystod hydref 2020.

1.3 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 18/20: Y Bwi Bar tymhorol: Cymhorthydd Mordwyo Llaw Rhif 2 Port: Fl.R.5s. Mae'r bwi cymhorthydd mordwyo tymhorol yma wedi ei dynnu.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr **Rhif 19/20:** Bwi Bar, Cymhorthydd Mordwyo Rhif 1 Starboard: Fl.G.5s. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo ar ei safle priodol. Mae’r golau wedi diffodd.

1.4 Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda chontractwr angorfeydd lleol i ymgymryd â'r holl waith angenrheidiol ar y cymhorthyddion mordwyo cyn gynted â bo hynny'n ymarferol fel bod y marciau mordwyo yn eu lle cyn dechrau tymor 2021.

1.5 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwrfeistr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Parhaodd y gwasanaeth yn weithredol drwy gydol cyfnod clo cyntaf y Coronafeirws gan sicrhau ein bod yn cadw at yr holl reoliadau. Cafodd y Coronafeirws a chyfyngiadau cysylltiedig Llywodraeth Cymru, osodwyd ar fywydau unigolion i atal lledaeniad y feirws, effaith fawr ar weithrediad yr Harbwr yn ystod 2020. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Awdurdod Harbwr gyflwyno Hysbysiadau Lleol i Forwyr i roi gwybod i ddefnyddwyr yr harbwr am y cyfyngiadau a osodwyd fel aeth amser rhagddo. Er i ni gyflwyno'r Hysbysiadau, mae'r Gwasanaeth wedi cael llif o geisiadau gan unigolion yn holi pa weithgareddau y gellir ac na ellir eu hymgymryd yn yr harbwr.

2.1.1 O fis Mehefin i Hydref 2020, blaenoriaeth y gwasanaeth oedd diogelwch dŵr ar y lan ac ar y dŵr. Gyda'r cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr a gyda sawl lleoliad ar hyd yr arfordir yn cael eu hadnabod fel mannau mwy peryglus, bu'r uned forwrol yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau lleol eraill a gwirfoddolwyr i ddarparu cyngor diogelwch gan ymateb i ddigwyddiadau pan roedd angen. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i'r gymuned leol am eu cymorth a'u gwyliadwriaeth.

2.1.2 Parhaodd y pysgota masnachol am ychydig ar ôl y cyfnod clo gyda'r perchnogion yn gwerthu eu dalfa yn lleol tan fo'r marchnadoedd yn ail-agor.

2.2 Disgwylir y bydd epidemig y Coronafeirws i raddau yn parhau i effeithio ar weithrediad yr harbwr am y tymor 2021 a ddaw. Mae gwaith yn cael ymgymryd yn awr i baratoi ar gyfer codi'r cyfnod clo presennol

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Mae gwaith cynnal a chadw wedi ei gynnal ar ben gorllewinol yr harbwr i ddarparu rhwystr yn erbyn y lefel cynyddol y traeth yn yr ardal honno. Mae contractwyr lleol a'r clwb golff wedi cynorthwyo i gael gwared o'r tywod sydd wedi ymgasglu yn yr ardal yma.

3.2 Mae'r rheiliau pren ar ben llwyfan glanio glanfa'r harbwr wedi cael eu newid gyda ffens 'tube clamp' wedi'i galfaneiddio a chynnwys giât.

3.3 Bydd gwaith yn parhau i dacluso a chynnal yr ardal storio dingis.

3.4 Bydd hysbysfyrddau gwybodaeth yn cael eu gosod a'u diweddaru cyn y tymor. Bydd marcwyr atal badau yn cael eu hailwampio a'u gosod yn eu lle ar gyfer mis Mai.

3.5 Mae cynnydd diweddar yn nifer y carcasau ar y blaendraeth wedi arwain i sawl diwrnod o waith ymatebol gan y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib. Adroddwyd i'r swyddfa bod dolffin cyffredin byw wedi'i olchi i'r lan yng nghanol mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd iechyd gwael bu'n rhaid i filfeddyg lleol roi'r creadur i gysgu ar y safle.

3.6 Oherwydd ein bod yn disgwyl cyfnod prysur dros yr haf, mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer y tymor a ddaw gyda'r pwyslais ar ddiogelwch ar y lan ac ar y dŵr.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Cynllun Gwella Wal Ochr y Cei:** Bydd y dogfennau contract o ran y gwaith peirianneg i adnewyddu wal y cei yn cael eu hail-gyflwyno ar gyfer tendro yn ystod diwedd mis Chwefror - ganol mis Mawrth. Fe wneir hyn gan wybod bod y deunydd a'r costau cysylltiedig eraill wedi cynyddu ers cyn i'r pandemig ddechrau. Er bod yr oedi yn peri pryder, nid oedd hi'n bosib osgoi gwaith angenrheidiol pellach o'r fath. Cyflwynir rhagor o wybodaeth a diweddariad yn y cyfarfod.

4.2 **Bryn Llestair (Picnic Island)** Mae'r gwaith ar ddyluniad y bont newydd yn mynd rhagddo. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Railtrack sydd wedi cyflwyno Trwydded ddrafft i'r Cyngor fydd yn galluogi i gontractwr a benodir weithio ar y prosiect i dynnu a gosod pont newydd. Rydym wedi ymgynghori gyda Outward Bound Cymru ac maent yn rhan o'r gweithgor. Mae'r arian ar gyfer y bont drwy gefnogaeth Cyngor Gwynedd ac Ymddiriedolaeth Outward Bound. Mae cais FLAG yn aros i gael ei asesu a hyderir y bydd FLAG yn gallu ariannu'r prosiect yn rhannol.

4.3 **Canolfan Dyfi:** Rhoddwyd cyfle i denantiaid gymryd tenantiaeth o'r swyddfeydd gwag yng Nghanolfan Dyfi.

4.4 **Ffensiau'r Harbwr:** Mae gwaith wedi ei gynnal ar ben gorllewinol yr harbwr i ddarparu rhwystr yn erbyn lefel gynyddol y traeth. Mae contractwyr lleol a'r clwb golff wedi cynorthwyo i gael gwared o'r tywod sydd wedi ymgasglu yn yr ardal yma.

4.5 **Parcio i Geir yn yr Harbwr:** Mae gwaith wedi ei gynnal yn yr ardal storio, ar ben gorllewinol yr harbwr, i ddarparu lle parcio i gerbyd yr harbwr ac i weithredwyr masnachol. Aed ati hefyd i ymdrin gyda a thacluso'r ardal ar gyfer cynhwysyddion chwaraeon dŵr / gwynt.

## H5 Digwyddiadau

5.1 Mae'n drueni y bu'n rhaid canslo nifer o ddigwyddiadau a gynlluniawyd i'w cynnal yn harbwr Aberdyfi o ganlyniad i'r Coronafeirws. Ni ragwelir y bydd unrhyw ddigwyddiad mawr yn cael ei gymeradwyo yn 2021.

5.2 Ar gyfer yr holl ddigwyddiadau arfaethedig yn y dyfodol, hoffai'r Gwasanaeth atgoffa aelodau ei bod yn hanfodol cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Coronafeirws sy'n bodoli ar y pryd a'r cyngor a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru gan gydgysylltu gyda Awdurdod yr Harbwr ar y cyfle cyntaf posib i gael caniatâd i gynnal y digwyddiad.

5.3 Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth wedi derbyn hysbysiad cynnar am ddigwyddiad 'PWC Gwynedd Blackrock Blast' a bennwyd ar gyfer 19 Mehefin 2021 fydd yn ymweld ag Aberdyfi fel rhan o'r digwyddiad. Bydd y trefnwyr yn monitro'r sefyllfa o ran y Coronafeirws fel yr aiff y flwyddyn rhagddi a bydd angen i drefnwyr digwyddiadau gydymffurfio'n llawn gyda chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru o ran rheoli digwyddiadau.